**Mater Mis Ionawr:**
**Ymgynghori ar y Calendr Ysgol — Plant 7-11 oed**

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

**Gwybodaeth i'r hwylusydd**

Mae mater y mis yma yn canolbwyntio ar gynigion Llywodraeth Cymru i newid dyddiadau'r tymhorau ysgol.

Bydd ein swyddfa yn ymateb i hyn ac fe hoffen ni gynnwys lleisiau plant, pobl ifanc a'r oedolion sy'n eu cefnogi yn ein hymateb i Lywodraeth Cymru.

| Gweithgaredd | Adnoddau ychwanegol/gwybodaeth bellach |
|---|---|
| Dechreuwch y sesiwn trwy atgoffa'r plant am eu lle diogel. | Os nad ydych chi wedi creu un eto, mae gennym ni ganllaw ar gyfer creu un yma. |
| Dangoswch y fideo yma i'r plant i gychwyn y sesiwn | |
| **Cynnal trafodaeth**<br>Gofynnwch i'r bobl ifanc rannu eu barn a chydweithio i greu rhestr o bethau cadarnhaol a negyddol.<br><br>**Syniadau ar gyfer y drafodaeth:**<br>Gallech chi roi cynnig ar y syniadau canlynol i gefnogi'r drafodaeth.<br>- Gofyn i'r plant drafod y syniadau mewn parau/grwpiau bach ac yna rhoi adborth i'r grŵp cyfan.<br>- Gofyn i'r plant symud i ochr wahanol o'r stafell yn ôl ydyn nhw'n hoffi neu ddim yn hoffi, a gofyn iddyn nhw rannu'r rheswm pam. | *Nodwch: Mae blwch yn yr arolwg i chi ychwanegu unrhyw sylwadau fel oedolyn sy'n gweithio gyda phlant.*<br><br>**Efallai byddwch chi am gefnogi'r drafodaeth trwy ychwanegu cwestiwn ategol:**<br><br>*Beth yw eich barn am gael 6 wythnos o wyliau yn ystod yr haf? Ydy hwnna'n gyfnod da o amser i gael yn rhydd? Neu ydy e'n rhy hir?* |

| | |
|---|---|
| **Rhannwch barn y grwp gyda ni trwy yr holiadur yma, neu fe allen nhw wneud e'n annibynnol.** | |
| Gorffennwch y sesiwn trwy atgoffa'r disgyblion y byddwn ni'n rhoi adborth ar ffurf diweddariad ddechrau mis nesa.<br><br>**LINC I'R YMGYNGHORIAD LLAWN**<br><br>Rydyn ni hefyd am annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn ymgynghoriad y Llywodraeth.<br><br>Cewch hyd i'r ymgynghoriad (sy'n cau ar 13/02/24) a dogfennau darllen hwylus yma.<br><br>Bydd y lincs yma yn galluogi pobl ifanc i ysytyried syniadau y Llywodraeth yn llawn ac i ymateb yn uniongyrchol iddynt:<br><br>• gov.wales/schoolyear<br>• llyw.cymru/flwyddynysgol | Efallai byddwch chi am atgoffa'r disgyblion am eu Lle Diogel a'u hatgoffa pwy gallan nhw siarad â nhw yn yr ysgol os byddan nhw'n teimlo'n bryderus. |